**Dyddiad:** 14 Medi 2000

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl:** **Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) (Drafft) 2000**

## Pwrpas

1. Mae papur hwn yn rhoi cyfle i'r pwyllgor fynegi sylwadau ar y rheoliadau drafft fydd yn rheoli'r modd y defnyddir y pwerau yn adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999 i wella'r cydweithio rhwng yr awdurdodau iechyd a'r awdurdodau lleol. Cyfeirir at y pwerau hyn yn aml fel "yr hyblygrwydd yn y Ddeddf Iechyd"

2. Bwriedir trafod y canllawiau drafft fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau hyn yn ein cyfarfod ar yr 11eg Hydref. Ar y 29ain Mehefin anfonwyd at aelodau'r Pwyllgor gopi o'r fersiwn ymgynghorol o'r canllawiau drafft oedd yn cynnwys y rheoliadau drafft fel Atodiad. Er y byddai wedi bod yn well cael cyfle i drafod y rheoliadau a'r canllawiau gyda'i gilydd ar ôl i'r ymgynghori ar y canllawiau ddod i ben ar 8 Medi, byddai trefn cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes a Deddfu ar ôl 11 Hydref yn golygu oedi o sawl wythnos cyn y gellid dod â'r rheoliadau i rym.

## Cefndir

3. Pwerau caniatáu yw'r hyblygrwydd yn y Ddeddf Iechyd fel y gellir cael mwy o gydweithio rhwng yr NHS a llywodraeth leol nag a oedd yn bosibl dan ddeddfwriaeth flaenorol. Y nod yw gwella'r gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr a chynhalwyr trwy gael cyllidebau ar y cyd a dirprwyo swyddogaethau trwy gael un corff i arwain wrth gomisiynu a thrwy ddarpariaeth integredig yn ogystal â hyrwyddo dyfeisgarwch yn y modd y darperir gwasanaethau.

4. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau drafft wedi cael eu datblygu gyda'i gilydd gan weithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr NHS, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a swyddogion y Cynulliad.

## Cynnwys y Rheoliadau

5. Yr hyblygrwydd yn y rheoliadau yw:

Y System Cronfa ar y Cyd

6. Y nod wrth gael cronfa ar y cyd yw sicrhau hyblygrwydd yn y defnydd a wneir o'r arian y mae'r partneriaid yn ei gyfrannu, i ymateb i anghenion grp neilltuol o bobl trwy ddarparu ystod benodedig o wasanaethau ar gyfer y sawl sy'n cwrdd â meini prawf cytûn. Bydd maint y gronfa a'r modd y'i defnyddir yn seiliedig ar nodau cytûn a chanlyniadau. Bydd cyfraniadau i'r gronfa wedyn yn cael eu gwario ar unrhyw rai o'r gwasanaethau a glustnodir yn ôl anghenion y defnyddwyr.

Dirprwyo Swyddogaethau - Un Corff Comisiynu

7. Mae cael un corff comisiynu yn rhoi cyfle i gomisiynu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer grp o gleientiaid o un sefydliad. Bydd un asiantaeth yn gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaethau a ddirprwyir iddi gan yr holl bartner asiantaethau. Rhaid i'r partneriaid benderfynu pa swyddogaethau gaiff eu comisiynu gan y prif gorff comisiynu a pha daliadau fydd eu hangen i ariannu pob un ohonynt.

Dirprwyo Swyddogaethau - Darpariaeth Integredig

8. Mae darpariaeth integredig yn gyfle i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy cydlynol trwy roi cyfle i wahanol weithwyr proffesiynol weithio o fewn un strwythur rheolaeth a threfnu darpariaeth o un corff statudol.

9. Gellir cyfuno'r modd y defnyddir yr hyblygrwydd. Yn ogystal â'r hyblygrwydd hwn o dan adran 31 o'r Ddeddf, mae adran 30 yn cyflwyno per newydd i awdurdodau lleol i wneud taliadau i awdurdodau iechyd. Ar hyn o bryd dim ond i'r cyfeiriad arall y gellir gwneud taliadau. Rwy'n awgrymu ein bod yn dechrau adran 30 yr un adeg ag y gwneir y rheoliadau hyn.

**Rheoliadau Drafft**

10. Ceir y rheoliadau drafft yn Atodiad A. Mae'r rhain yn diffinio'r partneriaid statudol (cyrff NHS ac awdurdodau lleol), y swyddogaethau y gellir eu cynnwys o fewn yr hyblygrwydd a'r telerau sydd ynghlwm wrthynt.

11. Mae cwmpas eang i'r swyddogaethau y gellir eu cynnwys. Ar ochr yr awdurdodau lleol maent yn mynd ymhell y tu hwnt i wasanaethau cymdeithasol gan gwmpasu gwasanaethau iechyd a gofal eraill ym maes llywodraeth leol. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B. Ar yr ochr iechyd, y swyddogaethau sydd wedi'u heithrio o'r hyblygrwydd yw'r rhai amlycaf fel llawdriniaeth, radiotherapi, endoscopi, erthylu, triniaethau ymosodol eraill a gwasanaethau ambiwlans mewn argyfwng. Ymhlith swyddogaethau iechyd a gofal cymdeithasol yr awdurdodau lleol na ellir eu cynnwys wrth arfer yr hyblygrwydd mae panelau mabwysiadu, arolygu cartrefi plant a dyletswyddau o dan Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984, lle'r mae'r broses gyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol eu goruchwylio neu lle mae galw am

weithredu annibynnol neu asesiad annibynnol.

12. Yn y Rheoliadau mae nifer o amodau ynghlwm wrth y cyfryw hyblygrwydd gan gynnwys: -

- bod yn rhaid i'r partneriaid fod yn fodlon y bydd y trefniant yn gwella'r gwasanaethau i ddefnyddwyr ac y byddant yn cwrdd â'r amcanion yn y Rhaglen Gwella Iechyd ac mewn cynlluniau gofal cymdeithasol.

- rhaid bod wedi ymgynghori'n ddigonol

- rhaid bod cytundeb ysgrifenedig clir sy'n cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

**Ymatebion i'r Ymgynghori**

13. Daeth tri ymateb i law i'r ymgynghori swyddogol ar y rheoliadau drafft, sydd newydd orffen. Mewn ymateb ar y cyd, mae'r NHS a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cymeradwyo'r camau a gymerwyd. Mae un ymateb yn ceisio eglurhad am waith traws-ffiniol rhwng awdurdodau Cymru a Lloegr. Mae'r trydydd ymateb yn cwestiynu a oes angen ymhelaethu ar y cyfeiriad yn Rheoliad 6(iv). Rwyf yn edrych i mewn i'r pwyntiau hyn a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod. O ran gwaith traws-ffiniol y bwriad yw y gallai'r partneriaid gynnwys unrhyw gyfuniad o awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd o Gymru a Lloegr, er budd y defnyddwyr a chynhalwyr.

14. Byddaf yn rhoi copïau o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ar y rheoliadau ac ar y canllawiau yn y Llyfrgell.

**Goblygiadau Ariannol**

15. Mae lle yn y rheoliadau i wneud cytundebau lleol ar gyfer defnyddio adnoddau ar y cyd er mwyn cael y canlyniad gorau. Nid ydynt, ohonynt eu hunain, yn creu'r angen am wariant ychwanegol. Rhaid iddynt arwain at wella gwasanaethau a bydd llawer ohonynt yn arwain at arbedion mewn effeithiolrwydd. Yng nghyd-destun y strategaeth hir-dymor y cyfeiriaf ati yn HSS-16-00(p3), byddaf yn ystyried a oes angen unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer hyrwyddo, cefnogi a datblygu hyfforddiant ar y cyd, monitro a gwerthuso.

**Amserlen**

16. Y prif gamau gweithredu a gynigiaf yw:

- Yng ngolau safbwyntiau'r Pwyllgor ac ar ôl rhoi ystyriaeth bellach i'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori, bwriedir llunio fersiwn derfynol o'r Rheoliadau drafft a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes ar 19 Hydref 2000 a'r Pwyllgor Deddfu ar 24 Hydref 2000.

- Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cyfle i drafod y canllawiau ar 11 Hydref.

- Bwriedir trafod y rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Tachwedd 2000

- Ar 29 Tachwedd byddaf yn lansio'n swyddogol yr hyblygrwydd ychwanegol mewn cynhadledd yn Llanfair-ym-Muallt.

- I weithredu'r rheoliadau hyn bydd angen rhoi Adrannau perthnasol o Ddeddf Iechyd 1999 ar waith. Bwriedir i'r Gorchymyn Dechrau gael ei roi gerbron y Cynulliad yr un pryd a'r rheoliadau hyn.

**Camau i'w Cymryd**

17. Fe fyddwn yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar y rheoliadau drafft.

**JANE HUTT**
**Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Medi 2000

Cysyllter â Mrs Lynne Hamilton Estyniad 6429.